# Gweithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas. Mae hyn yn cynnwys gweithio ag unigolion i nodi’r perthnasoedd sy'n bwysig iddynt, eu cefnogi i ddatblygu a chynnal eu perthynas, a mynd i’r afael ag unrhyw bryderon yn ymwneud â’r berthynas.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion unigolion a'u perthynas ag eraill
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi'r perthnasoedd sy'n bwysig iddynt, a'u hanghenion o ran perthnasoedd nawr ac yn y dyfodol
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i drafod agweddau cadarnhaol perthnasoedd a nodi'r risgiau, yr heriau, neu'r cyfyngiadau
4. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gynllunio sut gall unigolion ddatblygu a chynnal perthynas wrth i ddewisiadau, anghenion ac amgylchiadau newid
5. annog unigolion ac eraill i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddatblygu neu gynnal perthynas
6. cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn perthynas ag eraill
7. arsylwi rhyngweithiadau rhwng unigolion ac eraill a sicrhau cydbwysedd rhwng preifatrwydd, diogelwch ac ymyrryd
8. grymuso ac annog unigolion ac eraill i fyfyrio ar ryngweithiadau a nodi manteision a heriau perthynas
9. cefnogi unigolion ac eraill os yw perthnasoedd yn cael eu cynnal neu yn gorffen
10. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i weithio ag unigolion i ddatblygu neu gynnal perthynas
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth weithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rôl perthnasoedd o ran iechyd a lles unigolion
2. sut mae cefnogi unigolion i gyfathrebu eu hanghenion o ran perthnasoedd nawr ac yn y dyfodol
3. sut mae cefnogi unigolion ac eraill i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol
4. sut y gellir defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i ddatblygu a chynnal perthnasoedd
5. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
6. y ffactorau a allai effeithio ar berthynas a sut i fynd i'r afael â'r rhain
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y ffordd mae perthnasoedd yn cael eu datblygu a'u cynnal
8. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar y ffordd mae perthnasoedd yn cael eu datblygu a'u cynnal
9. yr effaith y gall perthynas ag unigolion ei chael ar eraill
10. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol mewn perthynas
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i weithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
12. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a'u perthynas ag eraill, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
13. sut mae rheoli risgiau a chyfyngiadau diogelu ar berthnasoedd
14. pwysigrwydd arsylwi ar ryngweithiadau rhwng unigolion ac eraill a sut mae sicrhau cydbwysedd rhwng preifatrwydd, diogelwch ac ymyrryd
15. sut y gall pŵer gael ei ddefnyddio a'i gamddefnyddio mewn perthynas
16. sut y gall colled a newid mewn perthynas effeithio ar unigolion ac eraill
17. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi unigolion i gynnal perthynas
18. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i weithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
19. theorïau sy'n berthnasol i weithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
21. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth weithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas

22. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas
23. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas, a sut i fynd i'r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Gweithio ag unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD327 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Datblygu a Chynnal Perthynas, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |